Pethau Powys yn poethi



Ysgolion newydd yn blodeuo yn y Fro

Cylchlythyr Rhieni dros Addysg Gymraeg
Rhifyn 26, Mehefin 2011
Cyhoeddir Rhagolwg gan Rhieni dros Addysg Gymraeg,
Tŷ Cymru, Greenwood Close,
Parc Busnes Porth Caerdydd, Caerdydd CF23 8RD
ffôn: 029 2073 9207 • ffacs: 02920 739201
ceri@rhag.net • www.rhag.net

rhieni dros addysg gymraeg
parents for Welsh medium education

30c

rhagolwg

Fflam Abertawe yn llosgi o hyd

Mae datblygiadau cyffrous ar y gweill yn Abertawe. Bydd Ysgol Gymraeg Tan-y-Lan, ysgol Gymraeg newydd Treforys, yn cychwyn ym mis Medi 2011. Sefydlir yr ysgol ar ôl blynyddoedd o ymgyrchu dyfal gan RhAG, a daeth y cyfle wrth i addysg Saesneg gael ei had-drefnu, gyda hen Ysgol y Graig yn dod yn wag.

Ar hyn o bryd mae 100 o ddisgyblion o Dreforys yn teithio i ysgolion Lôn-las a Thirdeunaw i gael addysg Gymraeg, ond o fis Medi bydd plant yr ardal yn gallu cael addysg Gymraeg heb orfod teithio. Mae'r ddwy ysgol hynny'n orlawn, ac ugeiniau o blant wedi'u gwrthod i addysg Gymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae corff llywodraethu'r ysgol newydd wedi'i sefydlu, ac mae RhAG, mewn cydweithrediad â'r Fenter Iaith leol a Mudiad Meithrin wedi cynhyrchu taflen hyrwyddo a gaiff ei dosbarthu i holl dai'r ardal.

Roedd diffyg ysgol Gymraeg yn Nhreforys yn drawiadol o gofio i'r galw am addysg Gymraeg yn Abertawe gychwyn yno, yn 1947, o dan arweiniad y Parch Trebor Lloyd Evans. Roedd Cyngor Eglwysi Rhyddion Treforys wedi bod yn galw am ddosbarth Cymraeg yn Ysgol Pentrepoeth cyn 1945.

Yr ail ddatblygiad yw'r bwriad i sefydlu ysgol Gymraeg newydd yn y Cwm, Bonymaen. Mae rhyw gant o blant o ardal Bonymaen a St Tomos ar hyn o bryd yn cael addysg Gymraeg yn Lôn-las a Bryn-y-môr. Daeth Ysgol y Cwm yn rhydd trwy ad-drefnu addysg Saesneg yr ardal.

Prif lun: hen Ysgol Y Graig a fydd yn ffurfio cartref ysgol newydd Treforys; llun bach: Ysgol y Cwm, darpariaeth newydd ar gyfer Bonymaen.

Bwriad Abertawe yw cychwyn yr ysgol hon ym mis Medi 2012. Daeth y cyfnod ymgynghori cyntaf i ben ddechrau mis Mai, a'r gobaith yw y bydd y broses yn mynd yn ei blaen yn ddirwystr.

Mantais y ddau ddatblygiad hyn i'r sir yw nad oedd cost cyfalaf, gan mai adeiladau gwag sy'n cael eu defnyddio i gychwyn yr ysgolion Cymraeg newydd. Y gobaith yw y bydd addysg Gymraeg yn blodeuo mewn dwy ardal arall yn Abertawe.

Nid yw'r sir, fodd bynnag, wedi datrys y pwysau yn ardal Tregŵyr a gogledd Gŵyr, ac mae RhAG yn edrych ymlaen at drafodaethau pellach gyda'r sir ar hyn.

Heini Gruffudd

Dyn y dyslecsia

Mae Michael Davies o Lechryd ger Aberteifi, prif weithredwr Dyslecsia Cymru (swydd wirfoddol) wedi ei ddewis i dderbyn gwobr genedlaethol Marion Welchman am ei gyfraniad i ddyslecsia yng Nghymru a'r Gymraeg dros y deng mlynedd ddiwethaf.

Dim ond pedwar person arall sydd wedi derbyn yr anrhydedd yn y ddeuddeg mlynedd ers pan sefydlwyd y wobr.

Yn ôl yn 2008, cafwyd deg o argymhellion gan bwyllgor Menter ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynglŷn â chefnogi dyslecsia yng Nghymru ond serch hyn dim ond un sydd wedi ei gwblhau hyd yn hyn. Felly aeth Dyslecsia Cymru at y Gweinidog Addysg a gofyn a fyddai'n barod i ariannu'r gost o ddatblygu prawf sgrinio yn y Gymraeg. Gwrthodwyd y cais ac felly aeth Dyslecsia Cymru ati ar ei liwt ei hunan i godi'r arian.

Yn dilyn dros flwyddyn o waith caled llwyddwyd i ddenu cyllid o wahanol ffynnonellau. Derbyniwyd grant o £8,040 oddi wrth Ymddiriedolaeth Ivor ac Aeres Evans (o Gaerfyrddin) a fydd nawr yn eu galluogi i gyrraedd y targed ariannol, cwrdd â chostiau datblygu'r prawf, ac i fwrw ymlaen â'r gwaith o gasglu a sefydlu normau cenedlaethol ar gyfer Prawf Sgrinio Dyslecsia Cymraeg (ysgolion cynradd).

Derbyniwyd grantiau a chyfraniadau hefyd tuag at y gwaith oddi wrth ymddiriedolaeth Cronfa Glyndŵr ynghyd â nifer helaeth o gynghorau Bro a Thref yn sir Gaerfyrddin a Ceredigion.

Gobeithir y bydd y prawf ar gael i ysgolion ei ddefnyddio cyn diwedd tymor yr Hydref 2011. Ar hyn o bryd mae Dyslecsia Cymru'n chwilio am ysgolion sydd yn fodlon cydweithio â'r mudiad i beilota'r prawf yno. Os oes diddordeb - cysyllter â Michael Davies drwy ebost: llechryd1@btconnect.com

CefnogiGwaith Cartref Welsh Homework Support
0871 230 0029
post@gwaithcartref.com post@homeworklinewelsh.com
Sul - Gwener 3.00pm - 9.00pm Sunday - Friday

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn ac i'r wefan www.rhag.net.

Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y Llinell Gyswllt:

0845 6076070
(cyfradd galwadau lleol)
Llun-Gwener
10.00am-12.30pm/1.30-3.30pm

Blwyddyn newydd dda Caerdydd

Ers dechrau'r flwyddyn mae'r newyddion o'r brifddinas wedi bod yn dda.

Mae problem ddybryd Ysgol Treganna wedi'i datrys gyda phenderfyniad y Ddinas mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru i adeiladu ysgol newydd sbon ar safle bron yn y dalgylch i agor ym Medi 2013. Golyga hyn gau'r ysgol lloeren i Dreganna, sef Ysgol Tan-yr-eos fel oedd y bwriad o'r cychwyn ond bydd Tan-yr-eos yn cael aros ar agor tan Gorffennaf 2013 i gartrefi ail ffrwd Treganna. Bydd Treganna ar ei safle newydd yn ysgol 3 ffrwd ond nid hi fydd ysgol Gymraeg 3 ffrwd gyntaf Caerdydd. Mae'r galw cynyddol am lefydd wedi golygu y bydd Ysgol Pwll Coch yn cael 3 ffrwd o Fedi 2011 ymlaen pan fydd o leiaf 78 plentyn yn dechrau yno. Mae'r sir yn rhagweld bydd nifer y plant am ddechrau yn cyfiawnhau darparu 180 lle ar gyfer dalgylchoedd Treganna a Phwll Coch o 2013 ymlaen. 18 plentyn fynychodd Ysgol Gymraeg Caerdydd ar ei chychwyn ym 1949 yn yr adeilad lle mae Tan-yr-eos dros dro. Bu tipyn o dwf ers hynny.

Problem ddybryd arall sy wedi'i datrys yw diffyg lle yn Ysgol Melin Gruffydd. Mae'r Gweinidog Addysg wedi cadarnhau cynllun Caerdydd i drosglwyddo'r ysgol i adeilad Ysgol Gynradd yr Eglwys Newydd sydd i'w chau â'r plant yn ymuno â phlant Eglwys Wen. Fe werir dros £4m i ehangu adeilad Eglwys Newydd i dderbyn ysgol dwy ffrwd Melin Gruffydd a dosbarthiadau meithrin yn ogystal. Mae'r rhieni Saesneg wedi dechrau achos am arolwg barnwrol â golwg ar ddiddymu penderfyniad y sir a'r llywodraeth ond does fawr o obaith iddynt ennill.

Mae twf y niferoedd yn parhau gyda'r cyfanswm o blant yn dechrau ym Medi eleni yn barod wedi cyrraedd 628, ffrwd gyfan yn uwch na chyfanswm 2010 o 598. Eleni yr unig ddarpariaeth ychwanegol yw agor y drydedd ffrwd ym Mhwll Coch. Mae'r anhawster wrth ddenu ymgeiswyr am swydd y pennaeth yn golygu bod yn well gan y sir ehangu ysgolion sy'n bodoli yn hytrach nac agor ysgolion newydd. Nid yw'n gyfrinach bod gan y sir gynllun hir-dymor i ymestyn Ysgol y Wern hefyd i dair ffrwd nawr bod yr Ysgol Saesneg drws nesaf ar fin cau, eleni neu yn 2012. Nid yw'r polisi hwn yn gyfyngedig i ysgolion Cymraeg; mae tair ffrwd yn Ysgol Saesneg Rhiwbeina ers blwyddyn neu ddwy erbyn hyn.

Yn y sector uwchradd mae Ysgol Glantaf wedi dathlu agor Neuadd Chwareuon newydd, ysblennydd a chanddi lain "astroturf" at ddefnydd y timoedd hoci a phêl-droed. Mae'r contractwyr allanol yn bwrw ymlaen â gwaith codi'r adeiladau fydd yn ffurfio wyneb newydd Glantaf i'r byd ac adlewyrchu'n well safon yr addysg sydd yno yn lle'r adeiladau oes llymder fu yno ynghynt. Mae dalgylchoedd y dair ysgol uwchradd (Plasmawr, Glantaf a'r un newydd) wedi'u penderfynu gan y sir ac felly mae'r sir wedi dechrau trefnu penodi

Safle trydedd ysgol uwchradd arfaethedig Caerdydd, hen ysgol Babyddol Teilo Sant.

aelodau'r corff llywodraethu cysgodol i weithredu nes y bydd yr ysgol yn agor ym Medi 2012. Bydd y corff cysgodol yn gyfrifol am awgrymu enw'r ysgol newydd, am benodi ei phennaeth cyntaf a, gydag ef/hi, am benodi staff i ddysgu a gweinyddu yno. Bydd y pennaeth yn ei swydd erbyn Ionawr 2012 yn ôl y bwriad. Ysgol pedair ffrwd fydd yr ysgol newydd am gyfnod o ddwy flynedd gan dderbyn plant o ysgolion Bro Eirwg a'r Berllan Deg. O 2014 bydd plant yn dod hefyd o ysgol Pen-y-pil ac o 2016 o ysgol Penygroes yn ychwanegol. Tua 2018 bydd dros 20 ffrwd o blant yn ceisio lle mewn addysg uwchradd Gymraeg ac erbyn 2020 yn sicr ni fydd modd i'r tair ysgol uwchradd barhau i dderbyn dros 20 ffrwd a fe ellir edrych ymlaen at sefydlu'r bedwaredd ysgol uwchradd yng Nghaerdydd.

Michael Jones

Cyfundrefn addysg dair lefel i Gaerffili

Pan roedd yn Fardd Plant Cymru, ymwelodd y Prifardd Ceri Wyn Jones ag Ysgol y Castell yng Nghaerffili. Fe'i cyfareddwyd o glywed plant cymoedd y de ddwyrain yn bwrw ati i ddysgu'r iaith ac wrth ddod o hyd i un cymeriad hoffus, cafodd ei ysbrydoli i ganu,

Nid côr plant yn cerdd danta yw harddwch
ond bwrdd y rhai lleia'n
dweud yn browd iawn 'Bore da'
yn acen Craig y Rhacca.

Byddai Ceri Wyn yn sicr wedi'i gyfareddu petai wedi ymweld â'r un ysgol ar noson ola mis Mawrth eleni. Roedd y neuadd fawr newydd bron yn llawn o rieni wedi dod i glywed cynigion yr awdurdod lleol ar gyfer dyfodiad addysg uwchradd yn y sir.

Bai'r rhieni yw hyn i gyd, wrth gwrs... oherwydd nhw sydd wedi creu'r galw am addysg Gymraeg yn y cyffiniau, a hwnnw wedi cyrraedd uchelderau na fyddai neb wedi dychmygu pump, heb sôn am ddeg mlynedd yn ôl. Daeth 414 o blant bach i mewn i ddosbarthiadau meithrin yr Ysgolion Cymraeg mis Medi diwethaf. Mae'n debyg y caiff y rhif hwn ei gynnal am y blynyddoedd nesaf. A bydd hyn yn golygu y bydd dros 3,300 o blant ein hysgolion cynradd Cymraeg ymhen wyth mlynedd - rhyw fil yn fwy na sydd yno nawr.

Yr ateb, llawer yn rhy aml, gan yr awdurdodau yw darparu ystafelloedd dros dro - y terrapins. Ond, ar gyfer twf mor fawr byddai hyn yn galw am agos i bedwar deg terrapin. A does dim lle i fwy o derrapins bellach yn y rhan fwyaf o'n hysgolion. Felly, mae'n rhaid ail strwythuro.

Ond wrth i'r niferoedd dyfu yn yr ysgolion cynradd mae hyn yn cael effaith ar yr Ysgol Uwchradd. Petai 414 yn dod i mewn bob blwyddyn dros y cyfnod uwchradd o saith mlynedd byddai yno bron i 2,900 o blant - ddwywaith y nifer sydd yno nawr. Felly, mis Medi eleni fydd y tro olaf y gall Ysgol Gyfun Cwm Rhymni dderbyn pob un o blant Blwyddyn 6 Ysgolion Cymraeg y sir. Er bod hyn yn destun dathlu, mae hefyd yn achos gofid i rieni plant sydd i fynd i'r ysgol gyfun yn 2012 ac wedi hynny.

Bu RhAG yn gwthio, ar hyd y blynyddoedd, am gael ail ysgol gyfun yn ardal tref Caerffili, a hynny yn adeiladau ysgol Sant Ilan. Ond mae'r awdurdod wedi cynnig cynllun sy'n rhagori ar hynny. Gyda chynllun y sir caiff pob un o'n plant fynd i Ysgol Gyfun Cwm Rhymni i fyny yn Gellihaf - yn y pen draw. Bydd plant yn mynd i safle'r Gwyndy (sef adeiladau'r hen Sant Ilan) ar gyfer eu haddysg ym Mlynyddoedd 7,8 a 9 cyn trosglwyddo i ganlyn y Cwricwlwm 14 - 19 yn Gellihaf.

Ond nid yng Nghaerffili yn unig y bydd hyn yn digwydd. Gweledigaeth y sir yw y bydd yn rhaid wrth ddwy safle arall debyg, y naill yng nghwm Rhymni, a'r llall ochr draw i'r afon yng Nghwm Sirhywi neu Gwm Ebwy. Bydd y rhain wedyn yn bwydo i mewn i safle Gellihaf a fydd yn ganolfan addysg 14 - 19.

Lle mae'r cynlluniau yn wych mae problemau'n dal i fod ar gyfer ariannu'r holl beth. Bydd y rhan gyntaf o'r cynllun, sef darpariaeth ar gyfer plant Blwyddyn 7 yn y Gwyndy yn barod erbyn Medi 2012 er na fydd yr ymestyniad a'r cyfleusterau ymarfer corff yn barod tan ychydig wedi hynny. Yna, erbyn 2013, bydd yr hen adeilad ym mhen blaen y safle wedi'i addasu ar gyfer Ysgol Gymraeg Caerffili.

Mae'n hen bryd i Ysgol Gymraeg Caerffili gael adeilad mwy addas. Agorwyd yr ysgol bresennol ym mis Ionawr 1970 a dechreuodd y terrapins gyrraedd y flwyddyn ganlynol - maent wedi bod yn cyrraedd o bryd i bryd ers hynny. Efallai ein bod ni yn RhAG wedi bod yn rhy barod i fodloni ar gael mynediad i'r holl blant sy'n dymuno addysg Gymraeg, ond heb roi digon o sylw i ansawdd y ddarpariaeth. Mae gan Ysgol Ifor Bach adeilad newydd sbon; moderneiddiwyd Ysgol y Castell i safon uchel yn 1995 a'r llynedd cwblhawyd gwaith hyfryd i adfer y brif neuadd a darparu pum ystafell ddosbarth ychwanegol. Tro Ysgol Gymraeg Caerffili yw hi bellach.

Beth am weddill y sir? Er y ddarpariaeth yn y Gwyndy, fydd dim lle eto yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ymhen rhyw dair blynedd ac, felly, bydd yn rhaid darparu ymhellach. Ond, hefyd, bydd angen llawer mwy o le ar gyfer plant cynradd, yn enwedig yng nghanol Cwm Rhymni.

Nerfus ac ansicr oedd nifer o'r rhieni yn ystod y cyfarfod. Peth digon naturiol o gofio mai dyfodol addysg eu plant oedd ar yr agenda. Ond erbyn y diwedd roedd pawb wedi cynhesu at y syniad ac, yn wir, roedd nifer am wybod a oedd unrhyw ffordd ymarferol y gallent sicrhau llwyddiant i'r fenter.

Newyddion Diweddaraf: Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad i benderfyniad cabinet y cyngor i neilltuo'r £3.5 miliwn ar gyfer y prosiect.

Ben Jones

Uned Gymraeg Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt, darpariaeth uwchradd cyfrwng Gymraeg bresennol de'r sir.

Pethau Powys yn poethi

Mae dyfodol addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn ne Powys wedi cyrraedd croesffordd bwysig gyda'r awdurdod addysg wrthi ar hyn o bryd yn cynnal ymgynghoriad anffurfiol ar foderneiddio addysg uwchradd.

Yr amserlen arfaethedig wedyn fydd i'r swyddogion ddadansoddi'r ymatebion a chyflwyno argymhellion pendant i fwrdd y Cyngor eu trafod ym mis Rhagfyr. Yn ddibynnol ar benderfyniad y bwrdd y bwriad fydd i fynd allan i ymgynghoriad llawn yn y flwyddyn newydd.

Mae rheidrwydd ar yr awdurdod addysg i edrych ar drefniadaeth eu ysgolion uwchradd gan nad yw'r gyfundrefn bresennol yn gynaladwy oherwydd nifer sylweddol o lefydd gwag, goblygiadau cyllidol a gofynion o ran y cwricwlwm. Mae'r awdurdod hefyd yn cydnabod nad yw'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ddigonol a phlant mewn sawl rhan o'r sir yn methu a chael mynediad at addysg Gymraeg gyflawn.

Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus ledled y sir yn ystod yr wythnosau diwethaf fel rhan o'r broses o ymgynghori gyda'r cyhoedd. Mae'r opsiynau arfaethedig a gyflwynwyd gan yr awdurdod ar gyfer ad-drefnu addysg uwchradd wedi ennyn ymateb ffyrnig gan bobl leol a'r trafodaethau yn y cyfarfodydd yn adlewyrchu hynny.

Mae'r argymhellion hefyd wedi codi tipyn o ddiddordeb o safbwynt addysg Gymraeg yn y sir gyda chynigion i sefydlu ysgolion penodedig Gymraeg yn y gogledd a'r de.

Mae ymgyrchwyr o blaid addysg Gymraeg wedi gweld bod cyfle euraidd yma i wireddu'r cynnig hwn gan nad oes gan Bowys ysgol o'r fath ar hyn o bryd. Gyda hynny mewn golwg, mae Mudiad Addysg Gymraeg Gogledd Ddwyrain Powys wrthi'n cynnal arolwg i ganfod barn rhieni dros sefydlu ysgol uwchradd Gymraeg. Bwriedir llunio ymateb yn seiliedig ar y canfyddiadau i'w gyflwyno i'r awdurdod fel rhan o'r ymgynghoriad. Mae canghennau RhAG De Powys yn cynnal arolwg tebyg i'r un perwyl yn ne'r sir.

Mewn ymgais i geisio rhannu gwybodaeth i rieni'r ardal mae canghennau RhAG Aberhonddu/ Pontsenni a RhAG Llanfair-ym -Muallt hefyd yn cynnal cyfarfod arbennig ar y cyd yn Ysgol y Bannau ar 26 Mai. Y siaradwr gwadd ar y noson fydd Mr David Williams, Pennaeth Ysgol Gyfun Ystalyfera, Castell-nedd Port Talbot, a fydd yn rhoi cyflwyniad ar ei brofiadau ef fel arweinydd ysgol gyfun Gymraeg lwyddiannus. Hyderwn y bydd y noson yn ysgogi trafodaeth fywiog ac yn gyfraniad i'r ddeialog bwysig am ddyfodol addysg uwchradd Cymraeg yn Ne Powys.

Canghennau newydd RhAG

Mewn cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yn Ysgol Plas Coch, Wrecsam, fis Rhagfyr diwethaf cytunodd rhieni lleol i sefydlu cangen RhAG yn yr ardal. Amcan y gangen fydd i sianelu cefnogaeth o blaid cynllun arfaethedig i sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg yn Delamere Avenue, Gwersyllt, ynghyd ag ysgogi datblygiadau pellach ledled Wrecsam.

Cafodd Jeremy Salisbury ei ethol yn gadeirydd. Roedd rhieni am weld datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd yn Wrecsam ac o blaid cefnogi ymroddiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i sefydlu ysgol newydd sbon. Pwysleiswyd bod Ysgol Plas Coch yn methu â diwallu'r galw cynyddol.

Yn y cyfamser, bu i gyfarfod cyhoeddus fis Ebrill ym Mhont-y-pŵl gytuno yn unfrydol i sefydlu cangen RhAG ar gyfer Torfaen, cangen RhAG gyntaf erioed i'w sefydlu yn yr ardal.

Cadeirwyd y cyfarfod gan Jeff Rees a chafwyd cyflwyniadau gan Tony Walker o Gyngor Torfaen ar gyflwr presennol addysg Gymraeg yn yr awdurdod a gan Ceri Owen o RhAG ar brif nodau ac amcanion y mudiad. Etholwyd Tom Davies yn gadeirydd a Phil Daniels yn ysgrifennydd.

Cafwyd trafodaeth ddwys ar un pwnc llosg yn benodol sef polisi Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ynglŷn â derbyn brodyr a chwiorydd i'r un ysgol.

Roedd hyn yn arbennig o berthnasol eleni yng nghyd-destun derbyn plant i Ysgol Bryn Onnen yn sgîl agor Ysgol Panteg, Griffithstown, y llynedd.

Bwriedir mynd ati i ddadansoddi polisi cyfredol y sir ac i wneud cais ar gyfer ail-werthuso'r ddogfen os bydd angen.

Mater arall fydd o flaenoriaeth i'r gangen yw dyfodol addysg uwchradd Gymraeg yn siroedd yr hen Went ynghyd â chydweithio'n agos gyda changhennau lleol eraill RhAG yn yr ardal wrth ddatblygu eu gweithgarwch.

Loteri addysg Sir Gaerfyrddin

Mae RhAG wedi galw ar Gyngor Sir Gâr i fynd i'r afael ar unwaith â phroblem argyfyngus diffyg llefydd yn ysgolion cynradd penodedig Cymraeg y sir.

Yn ystod y misoedd diwethaf cafodd nifer o deuluoedd sy'n byw yng nghyffiniau Ysgol Gymraeg Rhydaman ar ddeall nad oedd eu plant wedi derbyn lle ar gyfer mis Medi nesaf. Rhif mynediad swyddogol Ysgol Gymraeg Rhydaman yw 31 disgybl a siomwyd sawl teulu na fydd modd i'r ysgol dderbyn eu plant am eu bod yn byw tu allan i ddalgylch swyddogol yr ysgol. Cysylltodd y rhieni hyn â RhAG yn ystod y misoedd diwethaf yn gofidio am y sefyllfa. Yn wir, gohebodd RhAG gyda'r awdurdod yn Ebrill 2010 i rybuddio fod arwyddion clir bryd hynny am y pwysau cynyddol ar gynhwysedd Ysgol Gymraeg Rhydaman i'r dyfodol.

Yr unig ysgol yn nalgylch Rhydaman sy'n darparu'r cwricwlwm llawn trwy gyfrwng y Gymraeg yw Ysgol Gymraeg Rhydaman. Yn syml iawn, nid oes modd cymharu'r ddarpariaeth ieithyddol a gynigir mewn Ysgol Benodedig Gymraeg â'r hyn mewn ysgolion trosiannol neu ysgolion dwy ffrwd. O dderbyn hynny felly mae cynnig darpariaeth nad yw'n cyfateb i'r addysg a gynigir yn Ysgol Gymraeg Rhydaman yn gynnig anghydradd ac yn gwahaniaethu disgyblion a theuluoedd ar sail daearyddol.

Dywedodd Ceri Owen, Swyddog Datblygu Cenedlaethol RhAG, "Y ffaith amdani yw bod nifer cynyddol o blant Sir Gâr yn methu a chael mynediad i addysg gynradd gyflawn Gymraeg. Sut gellir cyfiawnhau rhoi darpariaeth ieithyddol gynhwysfawr i rai plant ac yna ar yr un gwynt amddifadu eraill o'r un gymuned rhag yr un cyfleoedd? Mae dyletswydd ar y cyngor sir i ymateb i ddyheadau rhieni, ac os yw rhieni yn dynodi blaenoriaeth dros addysg gyflawn Cymraeg yna mae'n ofyniad arnynt i fodloni hynny. Ar hyn o bryd loteri yw cael mynediad i addysg gynradd cyflawn Gymraeg yn Sir Gâr, yn seiliedig ar god post."

Penderfynodd pedwar teulu apelio'r penderfyniad a chynhaliwyd gwrandawiadau'r apêl yn ystod mis Mai. Ymhob achos cafwyd dyfarniad o blaid apêl y teuluoedd a'r panel yn gwyrdroi penderfyniad y sir gan gytuno i ganiatáu mynediad i'r pedwar plentyn.

Meddai Miss Owen, "Mae'r sefyllfa dan sylw'n tanlinellu pwysigrwydd yr angen i gynllunio llefydd digonol yn yr ardal er mwyn cydweddu â'r amcanion cenedlaethol a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn eu Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Yr egwyddor sylfaenol yma yw bod cynnydd aruthrol yn y galw o du rhieni am addysg gyflawn Gymraeg ac amharodrwydd ymddangosiadol o du'r Cyngor Sir i flaengynllunio'n strategol i ddiwallu hynny. Mae'n gwbl amlwg bod rhaid mynd i'r afael â hyn ar fyrder gan fabwysiadau datrysiadau tymor byr a hir-dymor i'r sefyllfa. Does dim amheuaeth mai parhau i dyfu fydd y galw, ac heb lefydd digonol, parhau i gael eu siomi a'u trin yn anghydradd fydd rhieni Sir Gâr sydd am addysg gyflawn Gymraeg i'w plant. Mae cynnig darpariaeth sydd wedi'i glastwreiddio'n ieithyddol yn annerbyniol."

Ysgolion newydd yn blodeuo yn y Fro

Safle ysgol gynradd Gymraeg newydd y Barri: *Ysgol Bro Morgannwg* *Ysbyty Cymunedol y Barri* *Cyd-fynedfa'r ysgolion*

Mae Bro Morgannwg yn derbyn yr anochel wrth i'r sir fynd ati i greu dwy ysgol gynradd newydd, un yn Llanilltud Fawr a'r llall yn y Barri.

Fel y cyfaddefodd Paula Ham, Pennaeth Cynllunio Strategol a Pherfformiad y sir, "Roedd y rhagamcaniadau yn dangos y byddai'r galw am lefydd mewn derbynfeydd cyfrwng Cymraeg yn uwch na'r llefydd hynny oedd yn bodoli yn ysgolion Cymraeg y Fro.

"Yn 2009 dechreuwyd y broses i gwrdd â'r galw yn y Barri ac i ddarparu, am y tro cyntaf, addysg gynradd Gymraeg yn Llanilltud Fawr. Rhoes Llywodraeth Cynulliad Cymru sêl ei bendith yn Ionawr 2011, ac yn ei sgîl felly hefyd y pwyllgor cynllunio, sydd yn ein galluogi i ddechrau ar yr adeiladu er mwyn bod yn barod erbyn dechrau'r tymor ym mis Medi 2011."

Lleolir ysgol newydd y Barri ar dir yr ysgol uwchradd Gymraeg, Ysgol Bro Morgannwg, ac ysgol newydd Llanilltud Fawr ar dir yr ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yn y dref honno. Yn y ddwy ysgol ar y dechrau, derbynnir disgyblion meithrin a derbynfa yn unig gan gynyddu'r dosbarthiadau fesul mis Medi nes bod ganddynt y saith blwyddyn arferol.

Tir glas i addysg Gymraeg yw Llanilltud Fawr, er bod y datblygiad yn unioni cam hanesyddol a esgorodd flynyddoedd lawer yn ôl ar ysgol yn y Bontfaen oherwydd nad oedd adeilad gwag ar gael yn Llanilltud. Mae ysgol y Bontfaen, sef Iolo Morgannwg, wedi hen ennill ei phlwyf ei hun erbyn hyn, felly mae'r ffordd yn glir i adennill y bwrlwm yn nhref fwyaf y Fro wledig.

Sefyllfa dipyn bach yn wahanol a geir yn y Barri. Bydd yr ysgol newydd, ymhen hir a hwyr, yn disodli Ysgol Sant Baruc, er y bydd ganddi ddwy ffrwd yn hytrach nag un. Dwywaith y llefydd, felly, ac mewn ardal gwbl wahanol yn ogystal: mae hyn yn cywiro sefyllfa sydd ymhell o fod yn ddelfrydol lle mae dwy ysgol Gymraeg, Sant Baruc a Sant Curig, ar bennau ei gilydd yng nghanol y dref.

Gofynnwyd i ddisgyblion Sant Baruc ddyfeisio enw ar gyfer yr ysgol newydd, ac allan o'r saith enw a ddaeth i'r fei, dewiswyd "Ysgol Gymraeg Gwynfor" gan y llywodraethwyr i dalu teyrnged i un o feibion enwocaf y dref, sef Gwynfor Evans. Fodd bynnag, nid oedd hwn at ddant cabinet y cyngor a aeth am "Ysgol Gymraeg Nant Talwg".

Ysgolion yn llawn? Addysg Saesneg amdani...

Bu'r wythnosau diwethaf yn rhai cythryblus iawn mewn sawl ardal o Rhondda Cynon Taf wrth i rieni geisio sicrhau llefydd i'w plant mewn dosbarthiadau meithrin cyfrwng Cymraeg.

Mae nifer uchel o ddosbarthiadau meithrin ysgolion de'r sir yn llawn gan gynnwys Castellau, Dolau, Beddau, Llwyncelyn a Llantrisant.

Cyrhaeddodd y sefyllfa bwynt argyfyngus yn ardal Llantrisant gyda 22 o blant yn cael eu gwrthod i uned feithrin yr ysgol yn ogystal ag 16 yn nalgylch Ysgol Llwyncelyn.

Mewn ymateb i hyn, sefydlwyd dwy gangen RhAG newydd gyda rhieni'n awyddus i frwydro yn erbyn y penderfyniad ac i amlygu'r diffyg cynllunio amlwg o du'r sir i ddiwallu'r galw cynyddol am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae'n arwyddocaol mai yn 1990 yr agorwyd yr ysgol Gymraeg ddiwethaf yn RhCT, sef Ysgol Bronllwyn, y Gelli.

Cafwyd cydnabyddiaeth gan y sir eu hunain mewn llythyr gan y Cynghorydd Eudine Hanagan, yr aelod cabinet â chyfrifoldeb dros addysg, y gallai'r awdurdod wedi bod yn fwy rhagweithiol wrth gynllunio ar gyfer llefydd meithrin cyfrwng Cymraeg yn y gorffennol.

Ffaith arall sydd wedi cythruddo a phryderu rhieni yw bod swyddogion yr adran addysg wedi bod yn awgrymu iddynt ystyried addysg cyfrwng Saesneg fel opsiwn amgen.

Yn sgîl brwydro ffyrnig gan y canghennau newydd llwyddwyd i gael datrysiadau byr dymor gan y sir ar gyfer Medi 2011. Mae 13 plentyn o'r 22 gwreiddiol a wrthodwyd yn Llantrisant wedi derbyn lle yn uned feithrin yr ysgol a'r gweddill wedi derbyn llefydd mewn darpariaethau Cymraeg cyfagos. O safbwynt Ysgol Llwyncelyn, mae pob un ond un o'r 16 wedi derbyn llefydd mewn ysgolion Cymraeg cyfagos neu yn Llwyncelyn ei hun.

Mae'r canghennau yn awyddus i sicrhau bod y sir yn cynllunio'n gadarn ac yn ddigonol i'r dyfodol er mwyn cyflawni eu dyletswyddau i fodloni dymuniadau rhieni dros ddewis addysg Gymraeg i'w plant.

Addawodd y cyfarwyddwr addysg fynd â chynigion gerbron y cabinet y mis yma i osod y weledigaeth, ond cafodd cyfarfod arfaethedig y cabinet ei ohirio.

Rhaid adeiladu ar yr adeiladau

Ym mis Medi 2010 agorwyd drysau adeilad newydd sbon Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn Nantyglo am y tro cyntaf. Mae'r ysgol yn gartref i dros 300 o ddisgyblion ac yn disodli Ysgol Gymraeg Brynmawr, unig ysgol Gymraeg Blaenau Gwent a sefydlwyd yn 1991.

Fel dengys y llun, mae'r ysgol yn adeilad modern, blaengar a hynny ar gost o £6m gyda Llywodraeth y Cynulliad yn cyfrannu'r mwyafrif o'r cyllid.

Mae'r ysgol hefyd yn gartref i gylch meithrin.

Tra'n croesawu'r buddsoddiad aruthrol yma gan yr awdurdod gyda'r bwriad o sicrhau'r adnoddau gorau ar gyfer addysg Gymraeg ym Mlaenau Gwent mae angen parhau i bwyso am ddatblygiadau

pellach. I'r perwyl hynny cynhelir cyfarfod cyhoeddus gyda'r nod o sefydlu cangen RhAG ym Mlaenau Gwent ar nos Iau 26 Mai yng Nghanolfan 'TCIC' yn Nhredegar.

Ymhellach i hynny, er mwyn cydnabod a dathlu dyfodiad yr adeilad newydd penderfynodd Mudiadau Dathlu'r Gymraeg gynnal noson hystyngau yn yr ysgol ar nos Fawrth 3 Mai ynghlwm ag ymgyrch etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Powys secondary rethink



All rosy in the Vale

The newsletter of RhAG, Parents for Welsh Medium Education
Issue 26, June 2011
Rhagolwg is published by Rhieni dros Addysg Gymraeg,
Tŷ Cymru, Greenwood Close,
Cardiff Gate Business Park, Cardiff CF23 8RD
tel: 029 2073 9207 • fax: 02920 739201
ceri@rhag.net • www.rhag.net

rhieni dros addysg gymraeg
parents for Welsh medium education

30p rhagolwg

Swansea still keeps flame aloft

There have been a number of exciting developments in Swansea. Ysgol Gymraeg Tan-y-Lan will open in Morriston in September 2011. The school will be established following years of hard campaigning by RhAG. The former Ysgol y Graig buildings have become available due to the reorganisation of English medium education in the area.

There are 100 pupils from Morriston who currently travel to Ysgol Lon-las and Ysgol Tirdeunaw to receive Welsh-medium education, but from September onwards, the area's children will be able to receive Welsh-medium provision without having to travel. Both schools are full, and as a consequence, numerous children have been refused access to WM education during the last few years.

The school's governing body has now been established, and RhAG, in co-operation with the local Menter Iaith (Welsh Language Initiative) and Mudiad Meithrin have created a leaflet to promote the new school to be distributed to all homes.

The absence of a Welsh-medium school in Morriston has been striking as the demand for Welsh-medium education in Swansea originated there in 1947, under the leadership of the Revd Trebor Lloyd Evans. Previously the Morriston Council of Free Churches called for the establishment of a Welsh class at Pentrepoeth school.

The second development is the proposed establishment of a Welsh-medium school in Cwm, Bonymaen. A further 100 children from the Bonymaen and St Thomas areas currently receive Welsh-medium education at Lon-las and Bryn-y-mor. Ysgol y Cwm also became available due to the reorganisation of English-medium education.

Main picture: the former Ysgol y Graig will house Morriston's new school; inset: Ysgol y Cwm, a new facility for Bonymaen.

The Authority's intention is that the school will open in September 2012. The initial consultation period came to an end in May, and it is hoped that the process will go ahead without any objections.

Neither development has incurred capital costs since both are located in empty buildings. Welsh-medium education can now flourish in two more areas of Swansea.

